

PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 6 Awst 2020 am 3.00 pm ym Rhithwir.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd P Jarman Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd G Hughes Y Cyngorydd J Williams
Y Cyngorydd W Owen Y Cyngorydd R Yeo
Y Cyngorydd D Williams Y Cyngorydd S Powderhill

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr S Zeinali, Rheolwr Datblygu Prifffyrdd a Mabwysiadu Prifffyrdd
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd R Bevan Y Cyngorydd G Davies
Y Cyngorydd W Jones Y Cyngorydd M Powell
Y Cyngorydd S. Rees-Owen

256 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees ddatganiad buddiant personol ynglŷn â Chais Rhif: 20/0091 - Adeiladu 3 Garej. (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 28/05/2020).

TIR CYFERBYN Â STRYD JAMES, CWMDÂR, ABERDÂR

"Rwy'n adnabod yr ymgeisydd yn sgil fy ngwaith fel cyngorydd".

257 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

258 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

259 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2020 yn rhai cywir.

260 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

261 CAIS RHIF: 20/0491

Newid defnydd i swyddfa'r post ac adleoli peiriant ATM (derbyniwyd disgrifiad diwygiedig ar 08/06/20).

27 HEOL YR EGLWYS, TON-PENTRE, PENTRE, CF41 7EB

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Marc Morgan (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees-Owen, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei chefnogaeth o'r datblygiad arfaethedig.

Rhododd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol wybod i'r Aelodau am fanylion deiseb a ddaeth i law o blaid y cais, a darllenodd gynnwys tri datganiad ysgrifenedig gan yr unigolion canlynol:

- Yr Aelod Lleol M Weaver, nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor
- Mr B McGrath (Gwrthwynebydd)
- Mr R Morgan (O blaid)

Parhaodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol trwy gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu

(Note: Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd y Cyngorwyr canlynol fuddiant personol yn yr eitem:

- G Hughes "Rydw i'n adnabod un aelod o'r cyhoedd a gyflwynodd ddatganiad ysgrifenedig"
- R Yeo "Rydw i'n adnabod un aelod o'r cyhoedd a gyflwynodd ddatganiad ysgrifenedig"

262 CAIS RHIF: 20/0404

**Cabinet Telathrebu - Virgin Media
1 Y RHODFA, PONTYPRIDD, CF37 4PU**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei bryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor, a rhoddodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu'r priffyrdd wybodaeth iddyn nhw ynglŷn â lleoliad y cabinet arfaethedig mewn perthynas â'r llwybr troed.

PENDERFYNWYD gohirio'r cais er mwyn cynnal Ymweliad Safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, er mwyn ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar ddiogelwch ar y ffordd.

263 CAIS RHIF: 20/0479

**Mynedfa newydd a maes parcio yn y cefn (12 o leoedd parcio)
CWMNI LLANMOOR DEVELOPMENT CYF, 63-65 HEOL TALBOT,
TONYSGUBORIAU, PONT-Y-CLUN, CF72 8AE**

Darllenodd y Pennaeth Materion Cynllunio a Buddsoddi Sylweddol gynnwys tri datganiad ysgrifenedig gan yr unigolion canlynol:

- Mr D Kelly (Gwrthwynebydd)
- Ms C Hall (Gwrthwynebydd)
- Mr a Mrs McCann (Gwrthwynebwy'r)

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor, a dywedodd wrth yr Aelodau y byddai angen cytuno i'r diwygiadau canlynol i'r amodau yn yr adroddiad pe byddai'r Aelodau'n cymeradwyo'r cais:

- Diddymu amod 6
- Diwygio amod 2 i gynnwys cyfeirnod cynllunio 1013-03.

Ar ôl ystyried y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio. Roedd hyn yn ddibynnol ar ddiwygio'r amodau uchod.

264 CAIS RHIF: 20/0091

**Adeiladu 3 Garej. (Derbyniwyd y cynlluniau diwygiedig ar 28/05/20) TIR
CYFERBYN Â STRYD JAMES, CWMDÂR, ABERDÂR**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 2 Gorffennaf 2020, gydag argymhelliad i'r gymeradwyo. Gwrthodwyd y cais bryd hynny, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at y

cryfderau a'r gwendidau posibl o ran cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, a hynny am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.

265 CAIS RHIF: 20/0146

Gofod parcio i gwsmeriaid a derbynfa ar y llawr cyntaf (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 29/05/2020).

Tŷ YSGOL BLAEN-CWM, HEOL HENDRE-WEN, BLAEN-CWM, TREHERBERT, CF42 5DR.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G Davies, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gefnogaeth ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu'r cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 16 Gorffennaf 2019, gydag argymhelliad i'w wrthod, ond roedd yr Aelodau o blaid cymeradwyo'r cais bryd hynny, yn groes i argymhelliad swyddog y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl o ran cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, yn amodol ar y pedwar amod a nodwyd yn yr adroddiad diwygiedig. Roedd hyn am eu bod o'r farn na fyddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar gymeriad nac edrychiad yr adeilad, na'r ardal gyfagos; ac na fydd effaith andwyol ar eiddo cyfagos o ran defnydd a phreifatrwydd.

(Noder: Ar yr adeg yma, yn unol â'r Cod Ymddygiad, gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple ddatganiad buddiant personol ynglŷn â Chais Rhif: 20/0491 Newid defnydd i swyddfa'r post ac adleoli peiriant ATM (derbyniwyd disgrifiad diwygiedig ar 08/06/20).

27 HEOL YR EGLWYS, TON-PENTRE, PENTRE, CF41 7EB

"Rydw i'n adnabod un aelod o'r cyhoedd a gyflwynodd ddatganiad ysgrifenedig"

266 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 06/07/2020 – 17/07/2020.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm

Y Cyngorydd S Rees
Cadeirydd.

